Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Brynach

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Bro Brynach yn rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Beca. Mae ethos cyfeillgar, cynhwysol a hapus yr ysgol yn drawiadol ac yn nodwedd gref o'i holl waith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion yn barchus a chwrtais. Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn ac mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel wrth ymgymryd â'u profiadau dysgu.

O ganlyniad i gynlluniau manwl a phwrpasol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd a llythrennedd. Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau digidol y disgyblion mor ddatblygedig. Yn sgil hyn, nid yw'r disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd yn eu medrau digidol.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnig ystod eang o brofiadau cyffrous a chyfoethog. Mae barn y disgyblion yn ganolog i'r broses gynllunio, felly mae'r rhan fwyaf yn ymgolli'n frwdfrydig yn eu profiadau dysgu. Mae staff yn darparu profiadau difyr ac ysgogol trwy'r gweithgareddau 'Gwener Gwyllt' sydd yn datblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn ymateb gyda chwilfrydedd a chymhelliant ac yn wirioneddol mwynhau eu dysgu. Er hynny, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddewis yn annibynnol sut y maent am fynd ati i gwblhau tasgau a chyflwyno eu gwaith. Mae staff yn meithrin perthynas weithio gynnes a chefnogol gyda'r disgyblion ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda. Mae awyrgylch gweithgar yn yr ysgol ac mae bwrlwm cyson i'w holl weithgareddau. Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio ystod o dechnegau addysgu yn sgilgar.

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer y ffederasiwn sydd wedi ei rhannu'n bwrpasol â staff, rhieni a'r disgyblion. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar roi cyfle i bob disgybl ffynnu o fewn amgylchedd gofalgar. Mae hi'n cael ei chefnogi'n ymroddgar ac angerddol gan y staff. Er bod anghysondebau wedi bod yn arweinyddiaeth y ffederasiwn dros gyfnod estynedig, mae arweinwyr wedi llwyddo i ddatblygu dealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgolion a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ffederasiwn ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cefnogi arweinwyr a staff yn briodol.

# Argymhellion

**A1** **Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth effeithiol ar draws y ffederasiwn**

**A2** **Sicrhau bod cynllunio yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau digidol**

**A3** **Cysoni trefniadau ar gyfer ymgorffori rôl y disgyblion yn eu dysgu ar draws y ffederasiwn**

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r defnydd effeithiol o'r ardaloedd tu allan er mwyn datblygu medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm i'w lledaenu ar wefan Estyn.



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Brynach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 95 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 63 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 25.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 23/06/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 30/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/11/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.